# SESIWN 5
# GWERTHUSIAD

**Amser**

Un i ddwy awr.
Efallai bydd angen gwers ychwanegol a gwaith cartref i baratoi cyflwyniadau Powerpoint os ydynt yn gwneud y gwerthusiad dwy awr.

**Ynglŷn â'r sesiwn hon**

Bydd y disgyblion yn gwerthuso eu prosiect camau gweithredu. Gellir cwblhau'r sesiwn hon mewn un neu ddwy awr.
**Gwerthusiad 1 awr:**
• cwblhau ffurflenni gwerthuso a rhoi adborth anffurfiol (awr).
**Gwerthusiad 2 awr:**
• cwblhau ffurflenni gwerthuso ac wedyn paratoi ar gyfer y cyflwyniadau PowerPoint gwerthuso (awr);
• cyflwyno gwerthusiadau i'r dosbarth (awr)

**Amcanion dysgu**

Bydd y disgyblion yn gallu:
• deall pam mae gwerthusiad yn rhan bwysig o'u Prosiect Cymryd Camau Gweithredu;
• myfyrio ar eu rhan yn y prosiect;
• gwerthuso eu prosiect;
• nodi ac awgrymu gwelliannau i'w prosiect.

**Cwestiynau allweddol**

Pam rydyn ni'n gwerthuso prosiectau?
Beth allwn ni ei ddysgu wrth werthuso?
Beth fydden ni'n ei wneud yn wahanol y tro nesaf?

**Adnoddau sydd eu hangen**

Cyfrifiadur/gliniadur gyda thaflunydd ar gyfer sioe sleidiau PowerPoint
PowerPoint: Prosiect Cymryd Camau Gweithredu – Sesiwn 5
Taflen waith 1 – *Bwrdd dartiau gwerthuso cymryd camau gweithredu* (un ar gyfer pob disgybl)
Taflen waith 2 – *Gwerthuso cymryd camau gweithredu* (un ar gyfer pob disgybl)
Taflen waith 3 – *Cyflwyniadau gwerthuso grŵp* (un ar gyfer pob grŵp os ydych yn gwneud y cyflwyniad dwy awr gyda chyflwyniadau)
Taflen waith 4 – *Cwestiynau cyflwyniadau gwerthuso* (wedi'u torri i fyny, un set o gwestiynau ar gyfer pob grŵp os ydych yn gwneud y gwerthusiad dwy awr)

**Sut i baratoi**

Archebwch liniaduron/ystafell TG ar gyfer disgyblion sy'n rhoi cyflwyniadau gwerthuso (gwerthusiad dwy awr).

SESIWN 5
# PARHAD I'R GWERTHUSIAD

**Cynllun gwers**

**Gwerthusiad un awr:**

| Amser | Cyflwyniad | Adnoddau |
|---|---|---|
| 0-5 munud | Gofynnwch i'r grwpiau prosiect ymuno â'i gilydd. Tanio syniadau: pam rydyn ni'n gwerthuso ein prosiectau? | Sesiwn 5<br>Sleidiau PowerPoint 2-3 |
| **Gweithgareddau** | | |
| 5-25 munud | **Gwerthusiad**<br>Dosbarthwch daflen *Bwrdd dartiau gwerthuso cymryd camau gweithredu* (taflen waith 2) i bob disgybl. Yn eu grwpiau, dylent drafod eu hymatebion gyda'i gilydd, ond dylai pob disgybl unigol gwblhau ei daflenni gwaith /ei thaflenni gwaith ei hunan. Esboniwch fod taflen waith 2 yn edrych ar hunanwerthuso a gwerthuso mewn grŵp. | *Bwrdd dartiau gwerthuso cymryd camau gweithredu* (taflen waith 1); *Gwerthuso cymryd camau gweithredu* (taflen waith 2) |
| 25-55 munud | **Adborth anffurfiol**<br>Gofynnwch i grwpiau roi adborth yn anffurfiol ar y prosiectau i'r dosbarth. Dylai'r grwpiau grynhoi'r hyn roedd eu prosiect yn ei olygu a rhannu eu gwerthusiadau gan ddefnyddio'r fframwaith 'Beth oedd wedi gweithio'n dda…' a 'Byddai wedi bod yn well fyth os…' | |
| 55-60 munud | **Cyfarfod llawn y grŵp**<br>Gofynnwch i'r grwpiau danio syniadau am awgrymiadau ar gyfer Prosiectau Cymryd Camau Gweithredu yn y dyfodol. Neu gallent ystyried: beth fyddech chi'n ei wneud pe byddech yn cymryd cam gweithredu arall?<br>Dywedwch wrth y disgyblion y gallant gymryd camau gweithredu dros hawliau dynol yn rheolaidd gydag Amnest Rhyngwladol, fel aelod unigol neu drwy sefydlu grŵp gweithredu i'r ieuenctid. Mae Sleid 6 yn dangos gweithredwyr ieuenctid Amnest ar brotest ym mis Mehefin 2009. | Sleid PowerPoint 9 |

**Os ydych yn cwblhau Sesiwn 5 mewn dwy awr, gwnewch fel uchod ond peidiwch â chynnwys yr adrannau adborth anffurfiol na chyfarfod llawn y grŵp.**

| | | |
|---|---|---|
| 25-60 munud | Esboniwch y bydd y disgyblion yn gweithio yn eu grwpiau i baratoi cyflwyniad PowerPoint ar eu prosiect ar gyfer y dosbarth. Dangoswch sleid 4 i'r disgyblion a dosbarthwch daflen *Cyflwyniadau gwerthuso grŵp* (taflen waith 3) a *Chwestiynau cyflwyniad gwerthuso* (taflen waith 4, wedi'i thorri i fyny).<br>Fel dosbarth, tanio syniadau am feini prawf asesu cyfoedion: beth sy'n gwneud cyflwyniad da? Ceir rhai cwestiynau ysgogi ar sleid 5 i helpu'r disgyblion. Mae angen i'r dosbarth gytuno ar bedwar maen prawf asesu a llenwi hyn i mewn ar daflen waith 3.<br>Dylid wedyn rhoi amser i'r disgyblion baratoi eu cyflwyniadau PowerPoint (efallai bydd angen gwers ychwanegol i wneud hyn). Dylent gynnwys atebion i gwestiynau taflen waith 4 a sicrhau eu bod yn ymdrin â'r meini prawf ar gyfer asesu cyfoedion.<br>Sicrhewch fod y disgyblion yn arbed eu cyflwyniad PowerPoint i rywle hygyrch. Dylai pob aelod o'r grŵp gyfrannu at roi'r cyflwyniad. Argraffwch y sleidiau fel y gallant gyfeirio atynt yn y wers nesaf. Casglwch daflen waith 3 ar gyfer y wers nesaf. | PowerPoint<br>*Cyflwyniadau gwerthuso grŵp* (taflen waith 3); *Cwestiynau cyflwyniad gwerthuso* (taflen waith 4) – 1 ar gyfer pob grŵp<br>Sleidiau PowerPoint 4-5 |

**Cyflwyniadau gwerthuso (ail wers)**


Rhowch bum munud er mwyn i'r grwpiau atgoffa eu hunain o'u PowerPoint a'u rolau. Nawr dylai'r grwpiau gyflwyno eu gwerthusiadau i weddill y dosbarth – pum munud yr un. Wedyn gofynnwch i weddill y dosbarth gwblhau eu *Cyflwyniad gwerthuso grŵp* (taflen waith 3). Dylai'r disgyblion ddyfarnu pwyntiau i grwpiau hyd at uchafswm o 20 bwyntiau. Gorffennwch gyda Chyfarfod llawn y grŵp – gweler y sesiwn flaenorol.

# SESIWN 5 **TAFLEN WAITH 1**

# BWRDD DARTIAU GWERTHUSO CYMRYD CAMAU GWEITHREDU

Enw: ..........................................................................................................................

**Ysgrifennwch eich meini prawf ar gyfer llwyddiant yn y blychau isod.**
**Dylech werthuso i ba raddau yr ydych wedi cyflawni pob targed.**



# SESIWN 5 **TAFLEN WAITH 2**

# GWERTHUSO CYMRYD CAMAU GWEITHREDU

Enw: ..........................................................................................................................

**Beth aeth yn dda? Beth allai fod wedi mynd yn well?**

| **Cwestiwn** | **Sgôr**<br>**1=gallai wneud yn well**<br>**5=gwych!** | **A wnewch chi gyfiawnhau'r sgôr a roddwyd gennych i'ch grŵp eich hunan** |
|---|---|---|
| **Hunanwerthuso** | | |
| Yn gyffredinol sut gwnaeth eich grŵp weithio gyda'i gilydd ar eich Prosiect Cymryd Camau Gweithredu? | | Yn eich ateb rhowch enghraifft i ddarlunio eich pwynt |
| Pa mor dda ydych bellach o ran trefnu gwaith grŵp ee rhannu tasgau'n gyfartal, cymryd rhan yn llawn, gwrando ar eich gilydd? | | Yn eich ateb defnyddiwch enghreifftiau o bethau a ddigwyddodd yn eich grŵp chi |
| A ydych yn teimlo'n fwy hyderus yn awr o ran ymchwilio i fater? | | Esboniwch eich ateb |
| A chithau wedi gorffen eich prosiect, pa mor dda yw eich dealltwriaeth a'ch gwybodaeth am y mater a ddewiswyd gennych? | | Defnyddiwch enghreifftiau o'ch gwybodaeth yn eich ateb |
| Rhestrwch **dair sgil** a ddysgwyd neu a ddatblygwyd gennych o ganlyniad i'r prosiect hwn | Nid oes angen sgôr | Rhowch enghraifft o sut y gwnaethoch ddatblygu'r sgiliau hyn |

# SESIWN 5 **PARHAD I DAFLEN WAITH 2**
# GWERTHUSO CYMRYD CAMAU GWEITHREDU

Enw: ........................................................................................................................

**Beth aeth yn dda? Beth allai fod wedi mynd yn well?**

| **Cwestiwn** | **Sgôr**<br>**1=gallai wneud yn well**<br>**5=gwych!** | **A wnewch chi gyfiawnhau'r sgôr a roddwyd gennych i'ch grŵp eich hunan** |
|---|---|---|
| **Gwerthusiad grŵp** | | |
| Enwch ddau beth a aeth yn wirioneddol wych yn eich prosiect. Esboniwch pam aethant yn dda. | Nid oes angen sgôr | |
| Pe baech yn gwneud eich prosiect eto, beth fyddech yn ei wneud yn wahanol a pham? | Nid oes angen sgôr | |
| A wnaethoch gyflawni eich meini prawf i gyd ar gyfer llwyddiant? Os na wnaethoch, esboniwch pam. | | |
| Rhowch ddau ddarn o gyngor i ddisgyblion sydd ar fin dechrau'r Prosiect neu'r gwaith hwn ar Gymryd Camau Gweithredol. | Nid oes angen sgôr | |
| I ba raddau fwynheuoch chi'r prosiect/gwaith cwrs hwn? Enwch un peth y gwnaethoch ei fwynhau, ac un peth na wnaethoch ei fwynhau. | | |

# SESIWN 5 **TAFLEN WAITH 3**
# CYFLWYNIADAU GWERTHUSO GRWPIAU

**Asesu cyfoedion**

Ysgrifennwch eich pedwar maen prawf ar gyfer asesu yn y pedwar blwch uchaf isod.
Yna ysgrifennwch enw pob grŵp yn y golofn ar y chwith. Rhowch i fyny at 5 marc ar gyfer pob maen prawf.

| **Meini prawf** (i'w cytuno gan y dosbarth cyfan) **Enw'r grŵp:** | **Uchafswm: 5** | **Uchafswm: 5** | **Uchafswm: 5** | **Uchafswm: 5** | **Cyfanswm y sgorau Uchafswm: 20** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

# SESIWN 5 **TAFLEN WAITH 4**
# CWESTIYNAU CYFLWYNIAD GWERTHUSO

**Dylech gynnwys y wybodaeth ganlynol yn eich cyflwyniad gwerthuso**

- Pa mor dda a wnaeth eich grŵp chi weithio gyda'i gilydd?
- A wnaeth eich grŵp ddysgu unrhyw sgiliau newydd/ddod yn fwy hyderus gydag unrhyw beth, ee ymchwil?
- Beth aeth yn dda gyda'ch prosiect?
- Beth fyddech yn ei wneud yn wahanol?
- Pa gyngor a fyddech yn ei roi i ddisgyblion eraill sy'n gwneud y Prosiect Cymryd Camau Gweithredu?
- A wnaeth eich Prosiect Cymryd Camau Gweithredu wahaniaeth? Sut gwyddoch chi?

**Dylech gynnwys y wybodaeth ganlynol yn eich cyflwyniad gwerthuso**

- Pa mor dda a wnaeth eich grŵp chi weithio gyda'i gilydd?
- A wnaeth eich grŵp ddysgu unrhyw sgiliau newydd/ddod yn fwy hyderus gydag unrhyw beth, ee ymchwil?
- Beth aeth yn dda gyda'ch prosiect?
- Beth fyddech yn ei wneud yn wahanol?
- Pa gyngor a fyddech yn ei roi i ddisgyblion eraill sy'n gwneud y Prosiect Cymryd Camau Gweithredu?
- A wnaeth eich Prosiect Cymryd Camau Gweithredu wahaniaeth? Sut gwyddoch chi?

**Dylech gynnwys y wybodaeth ganlynol yn eich cyflwyniad gwerthuso**

- Pa mor dda a wnaeth eich grŵp chi weithio gyda'i gilydd?
- A wnaeth eich grŵp ddysgu unrhyw sgiliau newydd/ddod yn fwy hyderus gydag unrhyw beth, ee ymchwil?
- Beth aeth yn dda gyda'ch prosiect?
- Beth fyddech yn ei wneud yn wahanol?
- Pa gyngor a fyddech yn ei roi i ddisgyblion eraill sy'n gwneud y Prosiect Cymryd Camau Gweithredu?
- A wnaeth eich Prosiect Cymryd Camau Gweithredu wahaniaeth? Sut gwyddoch chi?

**Dylech gynnwys y wybodaeth ganlynol yn eich cyflwyniad gwerthuso**

- Pa mor dda a wnaeth eich grŵp chi weithio gyda'i gilydd?
- A wnaeth eich grŵp ddysgu unrhyw sgiliau newydd/ ddod yn fwy hyderus gydag unrhyw beth, ee ymchwil?
- Beth aeth yn dda gyda'ch prosiect?
- Beth fyddech yn ei wneud yn wahanol?
- Pa gyngor a fyddech yn ei roi i ddisgyblion eraill sy'n gwneud y Prosiect Cymryd Camau Gweithredu?
- A wnaeth eich Prosiect Cymryd Camau Gweithredu wahaniaeth? Sut gwyddoch chi?